Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Mes Llwynderw**

**Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw**
**West Cross Lane West Cross**
**Swansea**
**SA3 5LS**



## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

26/10/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Mes Llwynderw

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Mes Llwynderw |
| Uchafswm y lleoedd cofrestredig | 60 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolwg cyntaf ar ôl cofrestru |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhag-weld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

Ewch i ddiwedd yr adroddiad hwn i gael rhagor o wybodaeth am raddau.

## Crynodeb

Mae'r plant yn ymgartrefu'n dda, yn hapus ac yn mwynhau eu hamser ym Mês Llwynderw. Mae ganddynt ymdeimlad braf o berthyn ac maent yn datblygu cydberthnasau a chyfeillgarwch cadarnhaol. Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau effeithiol am yr hyn y maent eisiau ei wneud. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac maent yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad yn eu gweithgareddau. Maent yn teimlo'n ddiogel ac wedi ffurfio perthynas glòs â'r staff.

Mae'r ymarferwyr yn garedig ac yn rhoi gofal ymatebol i'r plant. Maent wedi derbyn hyfforddiant diweddar ar brosesau diogelu ac maent wedi addasu eu hymarfer i ddilyn gweithdrefnau mwy cadarn yn ddiweddar. Maent yn rhyngwethio'n foddhaol gyda'r plant ac maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n addas at y diben.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau cadarn ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r amgylchedd yn cynnig mannau chwarae dymunol y tu fewn a thu allan. Mae'r amgylchedd yn galluogi'r plant i gyfarwyddo gydag amgylchedd yr ysgol ac yn hwyluso'r broses bontio iddynt. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant ac yn eu galluogi i gael mynediad at ystod dda o adnoddau priodol i'w hoedran, gan ysgogi eu dychymyg a'u diddordeb.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac maent yn ei reoli'n gymharol dda. Maent yn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi ac maent wedi gwneud gwelliannau mawr yn ddiweddar i dynhau'r gweithdrefnau diogelu. Nid yw'r system ar gyfer goruchwylio ac arfarnu'r staff yn cael ei gweithredu'n llawn. Cymraeg yw'r brif iaith a ddefnyddir ac mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg

| Llesiant | Da |
| --- | --- |

Mae’r plant yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth. Maent yn cyrraedd yn hapus ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Maent yn setlo'n gyflym ac yn mynd ati'n syth i chwarae'n rhydd. Maent wir yn mwynhau gweithgareddau yn yr awyr agored ac yn gyffrous wrth fynd ar helfa a nodi’r eitemau maent yn eu darganfod fel dail a chonceri. Maent yn falch iawn o’u campau ac yn awyddus i ddangos yr hyn y maent yn eu darganfod.

Mae gan y plant lais cadarn ac maent yn gwneud dewisiadau yn hyderus gan wybod y bydd yr ymarferwyr yn gwrando arnynt. Er enghraifft, maent yn gwneud dewisiadau effeithiol amser snac gan ddewis bwyta afal, banana neu oren neu ychydig o bob un. Mae nifer yn mwynhau coginio y yr ardal gartref ac yn penderfynu’n ddeallus ar beth maent eisiau eu rhoi yn y ffwrn.

Mae’r plant yn cyfathrebu yn hyderus gyda’i gilydd ac yn rhyngweithio’n dda gydag oedolion hefyd. Maent yn dangos parch i'w gilydd ac yn rhannu adnoddau'n briodol. Er enghraifft, yn yr ardal allanol maent yn sgwrsio’n hamddenol a chyd-drafod wrth chwarae gyda’r offer. Mae nifer o'r plant yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion ac yn gweithio’n dda mewn grŵp. Mae bron bob un o'r plant wedi meithrin cydberthnasau agos â'r staff, sy'n eu hadnabod yn dda, ac maent yn gwybod y gallant fynd atynt os bydd angen cymorth arnynt.

Mae'r rhan fwyaf o’r plant yn hyderus wrth fynegi eu syniadau a'u hanghenion. Maent yn mynegi eu teimladau yn gelfydd amser cylch ac yn ehangu eu hymatebion trwy esbonio pam. Er enghraifft, dywed un ei bod yn hapus am fod Mam yn dod i’w chasglu ar y diwrnod hwnnw a phlentyn arall yn sôn ei fod yn hapus am ei fod yn mynd i’r parc i fwydo hwyaid ar ôl gadael Mês Llwynderw.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn cael ymdeimlad o gyflawniad o'u chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau ystod dda o gyfleoedd ac yn symud yn hyderus o un weithgaredd i'r llall. Mae'r plant yn cymryd rhan ac yn canolbwyntio ar weithgareddau a ddewisir ganddynt ac mewn tasgau sy’n cael eu harwain gan staff. Er enghraifft, mae’r plant yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig wrth ddefnyddio morthwyl i fwrw hoelion plastic i mewn i’r pwmpeni ac wrth liwio pwmpen. Mae'r plant yn cael ymdeimlad o falchder o'u cyflawniadau, ac yn gwenu wrth dderbyn canmoliaeth gan y staff.

Caiff y plant rai cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, gall y rhan fwyaf adnabod a chasglu eu heiddio’n annibynnol, arllwys dŵr eu hunain a thorri gyda sisiwrn. Yn ogystal, maent yn defnyddio ‘tongs’ yn gelfydd i gasglu ffrwythau mas o’r fasged a gosod nhw ar y bwrdd.

| Gofal a Datblygiad | Da |
|---|---|

Ar y cyfan, mae’r staff yn dilyn gweithdrefnau diogelu. Mae gan y lleoliad bolisi cadarn o ran amddiffyn plant ac mae wedi cael ei ddiweddaru yn ystod yr arolwg. Mae llawer o’r staff wedi cael hyfforddiant diogelu ac mae ganddynt ddealltwiaeth dda o bolisi amddiffyn plant y lleoliad. Mae nifer wedi ailymweld â’r polisiau diogelu yn ddiweddar ac wedi eu trafod mewn cyfarfodydd staff. Fodd bynnag, mewn un achos, nid oedd y prosesau diogelu yn ddigon cadarn. Mae’r staff wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i’r newidiadau sydd wedi eu cyflwyno yn ddiweddar ac wedi mynd ati i ddarllen a deall y gweithdrefnau newydd sydd wedi’u cyflwyno.

Mae’r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn eu gweithredu. Er enghraifft, maent yn annog plant i fwyta ac yfed yn iach ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a defnyddio’r awyr agored. Maent yn dilyn arferion glanhau a golchi dwylo yn drylwyr ac yn annog y plant neu'n eu cefnogi i wneud yr un modd. Mae’r staff yn sicrhau eu bod yn dilyn gweithdrefnau cadarn i sicrhau bod plant yn iach. Mae ganddynt focsys cymorth cyntaf priodol sy’n cael eu gwirio’n rheolaidd ac mae’r staff yn trin unrhyw fân anafiadau yn effeithiol. Maent hefyd yn cadw cofnodion perthnasol o unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad. Mae'r staff yn cefnogi plant sydd â chyflyrau meddygol yn effeithiol ac yn sicrhau bod ganddynt gynllun gofal os oes angen.

Ar y cyfan, mae’r staff yn cydweithio'n dda fel tîm, ac mae pob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn mynd ati i gefnogi lles y plant yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn teimlo’n gartrefol yno. O ganlyniad, mae’r plant wrth eu bodd â'r gofal a ddarperir gan y staff brwdfrydig.

Mae’r staff yn dilyn y polisi ymddygiad gadarnhaol yn effeithiol ac yn gwobrwyo'r plant yn briodol am ymddwyn yn dda. Er enghraifft, maent yn canmol plant am gyfrif i ddeg yn annibynnol ac weithiau yn rhoi sticeri am eu campau. Mae’r staff yn creu awyrgylch hamddenol trwy gymryd diddordeb yn y plant ac o’r herwydd maent yn adnabod y plant yn dda iawn. Maent yn deall eu hanghenion, eu galluoedd a'u dymuniadau unigol yn dda ac yn rhyngweithio’n bositif gyda nhw. Maent yn mynd ati’n ddisymwth i dargedu medrau’r plant yn sensitif. Fodd bynnag, nid yw’r modd y maent yn rhyngweithio wir yn rhoi’r cyfleon gorau i ymestyn sgiliau meddwl pob plentyn am nad yw’r defnydd o gwestiynu yn ddigon effethiol.

Mae’r ymarferwyr yn darparu’r cynnig gweithredol o ran y Gymraeg ac yn manteisio ar y cyfle i drochi’r plant yn y Gymraeg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad ieithyddol y plant.

| Yr Amgylchedd | Da |
| --- | --- |

Mae’r bobl sy’n rhedeg y gwasaneth yn darparu amgylchedd diogel, pwrpasol a chroesawgar. Mae system electronig ar gael mewn rhai ardaloedd ac mae’r mannau awyr agored wedi'u diogelu â ffensys a waliau. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau nad oes unrhyw un heb awdurdod yn gallu dod i mewn i'r lleoliad. Mae mynediad i'r lleoliad ac oddi yno yn ddiogel: ni all neb ddod i mewn i’r lleoliad nac allan ohono heb i aelod o staff ganiatáu hynny. Maent yn cadw cofnod o bawb sy’n ymweld â’r gwasanaeth ac yn gwirio eu bathodynnau adnabod.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod asesiadau risg pwrpasol yn eu lle. Yn ystod yr arolwg, gwnaethant diweddaru’r asesiadau risg ar gyfer y clwb a’r ddarpariaeth gofleidiol er mwyn sicrhau eu bod yn fwy cynhwysfawr.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei gadw’n lan ac er mwyn cynnal arferion hylendid a dulliau rheoli heintiau da. Mae'r holl wiriadau diogelwch o ran yr offer yn gyfredol ac mae’r gwaith papur yn drefnus. Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ar y cyd gyda’r ysgol, a chedwir cofnod o'r rhain. Fodd bynnag, nid oes cofnod o ddriliau tân y clwb ar ôl ysgol.

Mae’r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gan y plant fynediad rhwydd i’r ardal allanol ac maent yn darparu ardaloedd dysgu pwrpasol a chyfleoedd i blant archwilio. Mae’r amgylchedd yn darparu cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol yn ogystal a’u sgiliau creadigol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad at ystod eang o adnoddau chwarae a dysgu. Mae’r adnoddau o ansawdd da sy'n briodol ar gyfer oed a cham datblygiad y plant ac mae digon o gyflenwadau er mwyn sicrhau bod gan y plant amrywiaeth a dewis da. Mae’r rhain yn cynnwys adnoddau adeiladu a gweithgareddau synhwyraidd, byd bach a chwarae rôl. Mae’r adnoddau yn cyfrannu at ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol, sgiliau iaith a sgiliau mathemategol y plant. Gall y plant gael mynediad hawdd i'r adnoddau am eu bod yn cael eu storio ar lefel isel neu o fewn eu cyrraedd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae’r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymroddedig i wneud gwelliannau. Mae datganiad o ddiben cynhwysfawr ar gael ac mae’n adlewyrchu’n glir y gwasanaeth sy’n cael ei ddarparu. Mae ganddynt bolisiau cadarn ac maent yn sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru a’u haddasu yn rheolaidd. Maent wedi gweithredu’n rhagweithiol ar argymhellion yr arolwg cofrestru.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y gwasanaeth wedi gwella’r gweithdrefnau diogelu. Maent wedi diweddaru’r polisi diogelu er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau clir ar gyfer pob math o achos. Ar adeg un digwyddiad, ni wnaethant ddilyn y polisi yn gwbl gywir. Maent wedi tynhau tipyn ar y broses o drosglwyddo plant ar ddiwedd y sesiwn ac wrth drosglwyddo o’r ysgol i’r clwb ac erbyn hyn mae’r weithdrefn tipyn yn fwy effeithiol. Maent wedi mynd ati i sicrhau bod gan bawb sydd ynghlwm â’r gwasanaeth ddealltwriaeth gadarn o’u cyfrifoldebau o ran diogelu. Maent bellach yn cydymffurfio gyda’r rheoliadau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff yn briodol o ddydd i ddydd. Maent yn cael eu lleoli mewn modd trefnus er mwyn i gymarebau staffio ac anghenion y plant gael eu diwallu'n llawn. Cadarnhaodd yr aelodau staff eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn yn eu rolau. Fodd bynnag, nid yw cyfarfodydd un-i-un yn cael eu cofnodi ac nid yw’r broses yn ddigon cadarn ar hyn o bryd. Yn ddiweddar, mae’r bobl sy’n rhedeg y gwasanaeth wedi dechrau cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio ond nid ydynt bob amser yn sicrhau bod yr holl wiriadau addasrwydd yn cael eu cadw’n drefnus mewn un lle. Maent yn darparu gweithdrefn sefydlu dda ar gyfer staff newydd, ac maent yn hyrwyddo hyfforddiant parhaus ar gyfer datblygiad proffesiynol. Maent wedi trefnu bod yr holl staff yn cael hyfforddiant cymorth cyntaf paediatreg er mwyn sicrhau bod pawb yn meddu ar gymhwyster priodol.

Mae'r partneriaethau gyda’r ysgol yn dda iawn. Mae’r rhan fwyaf o rieni yn hapus gyda’r gwasanaeth er bod rhai wedi son nad yw’r broses o gyfathrebu gyda nhw wedi bod yn ddigon cadarn. Dywedasant wrthym eu bod yn hapus gyda'r gofal a bod eu plant yn mwynhau mynychu.

**Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

R1. Ffurfioli'r broses o gynnal cyfarfodydd un-i- un gyda'r staff

R2. Sicrhau bod gan un staff i bob deg plentyn dystysgrif cymorth cyntaf cyfredol, a hwnnw'n addas i oed y plant y maent yn gofalu amdanynt

R3. Sicrhau bod y staff yn rhyngweithio mewn modd sy'n datblygu sgiliau meddwl y plant

R4. Sicrhau bod cofnod o ddril tân ar gyfer y clwb ar ôl ysgol

R5. Sicrhau bod pob aelod staff yn parhau i ddilyn y gweithdrefnau diogel newydd ar bob achlysur

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella.<br>Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na.<br>chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/12/2022